OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2025 Rhif 844 (Cy. 147)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 Cyffordd 23A (Magwyr, Sir Fynwy) i Gyffordd 26 (Malpas, Casnewydd) a Chyffordd 30 (Porth Caerdydd, Pontprennau) i Gyffordd 33 (Gorllewin Caerdydd) (Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro) 2025

Gwnaed	*11 Gorffennaf 2025*
Yn dod i rym	*14 Gorffennaf 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer traffordd yr M4, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar y darnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 Cyffordd 23A (Magwyr, Sir Fynwy) i Gyffordd 26 (Malpas, Casnewydd) a Chyffordd 30 (Porth Caerdydd, Pontprennau) i Gyffordd 33 (Gorllewin Caerdydd) (Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 14 Gorffennaf 2025.

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**)); a

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "y draffordd" ("*the motorway*") yw Traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd, neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40mya ar y darnau o draffordd yr M4 a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

4. Nid yw'r cyfyngiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Atal dros dro

5. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau penodedig o'r draffordd wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 11 Gorffennaf 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1

Y darn o Draffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 30 (Porth Caerdydd, Pontprennau) i Gyffordd 33 (Gorllewin Caerdydd), gan gynnwys yr holl ffyrdd ymadael ac ymuno rhwng y cyffyrdd hyn, o 00:01 o'r gloch ddydd Llun 14 Gorffennaf 2025 hyd 23:59 o'r gloch ddydd Gwener 8 Awst 2025.

ATODLEN 2

Y darn o Draffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 23A (Magwyr, Sir Fynwy) i Gyffordd 26 (Malpas, Casnewydd), gan gynnwys yr holl ffyrdd ymadael ac ymuno rhwng y cyffyrdd hyn, o 00:01 o'r gloch ddydd Llun 11 Awst 2025 hyd 23:59 o'r gloch ddydd Gwener 3 Medi 2025.